

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Borthyn

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg



Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Borthyn yn ysgol hapus a gweithgar lle mae arweinwyr a staff wedi meithrin perthnasoedd cryf â'r gymuned i gynorthwyo disgyblion i fod yn ddysgwyr dyheadol ac uchelgeisiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cryf ar draws y cwricwlwm.



Mae arweinwyr, staff, a llywodraethwyr wedi gweithio gyda'i gilydd i greu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae disgyblion yn deall ethos 'Borthyn BATS' ac yn ei ddefnyddio i'w cynorthwyo yn eu dysgu. Mae hyn yn amlwg yn yr agweddau cadarnhaol a ddangosant wrth ddelio â her. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ar draws yr ysgol ac yn dangos moesau da, hiwmor a charedigrwydd at ei gilydd, ac at oedolion.



Mae staff yn gweithio'n ddiwyd i wrando ar ddisgyblion ac yn defnyddio eu syniadau i wella'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn 'Senedd' dosbarth ac mae llawer ohonynt yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut.

Mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda, ac yn ystod gwersi, yn rhoi cymorth, arweiniad ac adborth defnyddiol i'w helpu i wella'u gwaith. Maent yn cynllunio'n ofalus ar gyfer dysgu disgyblion, ac mae ganddynt ddisgwyliadau clir ar gyfer y cynnydd maen nhw eisiau i'w disgyblion ei wneud. Mewn lleiafrif o achosion, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfle i ddatblygu eu medrau datrys problemau mewn mathemateg, ac mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar eu syniadau creadigol.

Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddatblygu a mireinio eu hymagweddau at y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn gosod y pedwar diben wrth wraidd eu cynllunio cwricwlwm, ac yn datblygu eu hymagweddau at addysgu effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod bron pob un o'r staff yn cydweithio'n dda i ddylanwadu ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, ac yn cael cyfleoedd perthnasol i wella'u harfer trwy ddysgu proffesiynol difyr.

Un o gryfderau penodol yr ysgol yw'r perthnasoedd cryf â rhieni a'r gymuned ehangach. Mae rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan staff a chânt eu hannog i gymryd rhan yn y gwaith y mae eu plant yn ei wneud. O ganlyniad, mae ymrwymiad ar y cyd ar draws cymuned yr ysgol i gynorthwyo'i phlant i fod yn chwilfrydig a chael eu cyffroi gan ddysgu, trin pobl eraill yn dda ac ymdrechu i wneud eu gorau glas.

## Argymhellion

A1 Lleihau'r orddibyniaeth ar daflenni gwaith i roi cyfleoedd gwell i ddisgyblion gyflwyno ac ailddrafftio eu gwaith

A2 Gwella medrau datrys problemau disgyblion mewn mathemateg

A3 Mireinio ac ymgorffori ymagweddau at addysgu ac asesu sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddysgu disgyblion, a rhannu'r arfer dda hon ar draws yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn meithrin cysylltiadau effeithiol gyda rhieni, i'w lledaenu ar wefan Estyn.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Borthyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 95 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 90 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 5 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y Cynradd yw 23.0%) | 35% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y Cynradd yw 16.1%) | 37.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 3.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 7.4% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2015 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/03/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/10/2022 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/12/2022